Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 30 Mawrth 2011
11.30 – 16.00

Siambr Gyngor Dewi, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R.Merfyn Jones, Cadeirydd Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Ian Rees, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Staff Academaidd Katie Dalton, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Myfyrwyr
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (IM) Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (GS)
Sylwedyddion:	Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru
Ymddiheuriadau:	Helen Marshall, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Hefyd yn bresennol:	Emyr Lewis, Cyfreithwyr Morgan Cole (yn bresennol am ran o'r cyfarfod yn unig)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1 Sylwadau Agoriadol	1.1. Estynnwyd croeso ffurfiol i bawb gan y Cadeirydd i gyfarfod cyntaf Bwrdd Cyfarwyddwyr [y Bwrdd] y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg]. 1.2. Nodwyd fod yr agenda ar gyfer y cyfarfod yn faith ac yn ffurfiol oherwydd gofynion y gwaith o sefydlu'r Coleg a'r cwmni'n swyddogol. Nodwyd y bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol yn gofyn am drafodaethau llawn ar faterion strategol.		
2 Cofnodion Grŵp Gweithredu'r Coleg Ffederal (BC/11/01/02)	2.1. Nodwyd fod y cofnodion wedi eu dosbarthu i'r Cyfarwyddwyr, er gwybodaeth. Derbyniwyd y cofnodion yn ffurfiol gan y Bwrdd, a nodwyd fod y cofnodion yn dangos yn eglur yr holl waith sydd eisoes wedi ei gwblhau fel rhan o'r broses o sefydlu'r Coleg.		
3 Materion Llywodraethol (BC/11/01/03)	3.1. Nodwyd fod nifer o faterion llywodraethol yr oedd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr eu hystyried mewn perthynas â sefydlu'r Coleg yn ffurfiol. Ystyriwyd a thrafodwyd yr holl faterion a gynhwyswyd yn y papur yn unigol. 3.1.1. <u>Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg [y Memorandwm]</u>: Nodwyd a derbyniwyd y Memorandwm yn ffurfiol, a chytunwyd i'r argymhelliad i swyddogion y Coleg baratoi Cod Ymarfer i'w gytuno a'i fabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. 3.1.2. <u>Aelodaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr:</u> Nodwyd yn ffurfiol ymddiswyddiad Geraint Talfan Davies a fu'n gweithredu fel Cyfarwyddwr yn y cyfnod hyd at 30 Mawrth 2011, gan ddiolch iddo am ei holl waith yn ystod y cyfnod o sefydlu'r Coleg. Cytunwyd i'r argymhelliad i'r Bwrdd fabwysiadu cylch gorchwyl llawn yn eu cyfarfod nesaf.	Swyddogion y Coleg i baratoi Cod Ymarfer, i'w gytuno a'i fabwysiadu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Cylch Gorchwyl llawn i'r ystyried a'i fabwysiadu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	27 Mehefin 2011. 27 Mehefin 2011.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	3.1.3. Trefniadau Dirprwyo: Cymeradwyodd y Cyfarwyddwyr y trefniadau dirprwyo fel y'i hamlinellwyd yn y papur, gan nodi y byddai'r trefniadau llawn yn cael eu hamlinellu yn y Cod Ymarfer sydd i'w baratoi erbyn y cyfarfod nesaf. 3.1.4. Ysgrifennydd y Coleg: Nodwyd a derbyniwyd yn ffurfiol swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd, fel y'i hamlinellwyd yn y papur. 3.1.5. Cyfnodau Cyfarwyddwyr mewn swydd: Nodwyd yr angen i'r Cyfarwyddwyr gytuno ar drefn i 'stagro' eu tymor mewn swydd, yn unol â gofynion y Memorandwm (Erthygl 30). Cytunwyd ar y drefn a ganlyn: (i) I ymddeol yn 2012 (ond gellir eu hail-ethol am ddau gyfnod pellach o dair blynedd): Katie Dalton (ond gan nodi y gall y cynrychiolydd myfyrwyr newid yn flynyddol), Jacqui Hare, Helen Marshall, Dr Ian Rees. (ii) I ymddeol yn 2013 (ond gellir eu hail-ethol am un cyfnod pellach o dair blynedd): Dr Hefin Jones, yr Athro Medwin Hughes, yr Athro Hywel Thomas, Gareth Pierce. (iii) I ymddeol yn 2014 (ond gellir eu hail-ethol am un cyfnod pellach o dair blynedd): yr Athro Aled Jones, Wyn Thomas, Linda Wyn, Geraint James. 3.1.6. Rheolau Ymddygiad Personol ar gyfer Cyfarwyddwyr y Coleg: Nodwyd y Rheolau Ymddygiad Personol drafft fel y'i hatodwyd gyda'r papur, a chytunwyd i'w mabwysiadu'n ffurfiol. Nodwyd y byddai'r rheolau yn cael eu hymgorffori i'r Cod Ymarfer. 3.1.7. Statws Papurau a Chofnodion y Bwrdd: Nodwyd a derbyniwyd yr argymhelliad parthed statws papurau'r Bwrdd, gan nodi'n benodol yr angen i ddiogelu cyfrinachedd y papurau.	Y Coleg i fabwysiadu'r trefniadau a amlinellwyd yn y papur. Rheolau i'w mabwysiadu ar unwaith a'u gweithredu'n llawn. Argymhellion i'w gweithredu.	Ar unwaith. Ar unwaith. Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	3.1.8. Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd: Nodwyd fod yr Ysgrifennydd yn y broses o drefnu dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer y cyfnod hyd at Fehefin 2013. Nodwyd y byddai'r dyddiadau'n cael eu cadarnhau yn ystod yr wythnos i ddod. 3.1.9. Trefniadau ad-dalu treuliau: Nodwyd y trefniadau fel y'i hamlinellwyd yn y Rheoliadau Ariannol drafft, a chadarnhawyd fod y ddogfennaeth berthnasol wedi ei ddosbarthu i bob Cyfarwyddwr.		
4 Aelodaeth y Coleg (BC/11/01/04)	4.1. Cyflwynwyd y papur a nodwyd y rhestr o ddeuddeg o Aelodau Sefydliadol y Coleg, a chadarnhawyd fod yr is-ganghellor / prif weithredwr ymhob achos wedi arwyddo'r Memorandwm. 4.2. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Coleg, yn unol â'r Memorandwm, i gael nifer o aelodau rhanddeiliadol sy'n gyfartal â nifer y sefydliadau sy'n aelodau. Nodwyd fod Bwrdd Gweithredu'r Coleg Ffederal, yn ei gyfarfod ar 19 Hydref 2010, wedi cytuno ar restr o sefydliadau / cyrff i'w gwahodd i fod yn aelodau rhanddeiliadol. Yn sgil gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Coleg, nodwyd fod nifer o'r sefydliadau / cyrff dan sylw wedi nodi eu diddordeb i fod yn aelodau rhanddeiliadol o'r Coleg. 4.3. Cymeradwyodd y Cyfarwyddwyr y rhestr o gyrff a sefydliadau i'w gwahodd yn ffurfiol yn dilyn y cyfarfod i fod yn aelodau rhanddeiliadol. 4.4. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Coleg gynnal ei gyfarfod blynyddol cyntaf o fewn deunaw mis o sefydlu'r Coleg, a chytunwyd i bennu dyddiad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	Swyddogion y Coleg i wahodd y rhestr o gyrff a sefydliadau a nodwyd i fod yn aelodau rhanddeiliadol o'r Coleg. Dyddiad y cyfarfod blynyddol cyntaf i'w bennu yng nghyfarfod	Erbyn Mehefin 2011. 27 Mehefin 2011.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
		nesaf y Bwrdd.	
5 Materion Staffio (BC/11/01/05)	5.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur gan Dr Ioan Matthews [IM], a nodwyd gair o ddiolch i Emyr Lewis am fynychu'r cyfarfod er mwyn darparu cyngor cyfreithiol ar y materion dan sylw. 5.1.1. Nodwyd cefndir y drafodaeth ar faterion staffio, a nodwyd argymhelliad Bwrdd Gweithredu'r Coleg Ffederal ar 10 Gorffennaf y dylid trosglwyddo cyflogaeth staff y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg i gyflogaeth uniongyrchol gan y Coleg, a derbyniwyd yr argymhelliad gan Addysg Uwch Cymru yn eu cyfarfod ar 2 Medi 2011. Adroddwyd fod proses ffurfiol o drosglwyddo cyflogaeth staff i'r Coleg wedi ei gynnal drwy drefn TUPE (Transfer of Undertakings (Protection of Employees) Regulations 2006), dan gyfarwyddyd Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, gyda'r bwriad o drosglwyddo'r staff i'w cyflogi'n uniongyrchol gan y Coleg o 1 Ebrill 2011. Nodwyd, fodd bynnag, na fu modd cwblhau'r trosglwyddiad, oherwydd cymhlethdodau yn ymwneud â chynnig pensiwn i'r staff. 5.1.2. Nodwyd fod Bwrdd Gweithredu'r Coleg wedi penderfynu y dylid cynnig cynllun pensiwn USS i holl staff cyflogedig y Coleg. Un o ofynion cynllun pensiwn USS yw bod sefydliad addysg uwch yn darparu gwarant i ddiogelu pensiwn y staff. Nodwyd fod Bwrdd USS wedi ystyried cais y Coleg i staff ymuno â'r cynllun pensiwn, a chymeradwywyd y cais gan Fwrdd USS ar 25 Mawrth, yn amodol ar ddarparu manylion y gwarant. Serch hynny, nid yw'r Coleg, hyd yma, wedi gallu derbyn gwarant gan sefydliad addysg uwch, ac felly nid oes modd cwblhau'r trosglwyddiad. Nodwyd fod y sefyllfa bresennol yn arwain at gymhlethdod pellach gan ei bod yn fwriad i adolygu amodau pensiwn cynllun USS, a'r gobaith ydoedd y byddai modd i'r staff ymuno â'r cynllun cyn bod yr amodau newydd yn cael eu		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	cyflwyno. 5.1.3. Adroddodd Emyr Lewis (EL), ar ran y Coleg, fod y broses o drosglwyddo cyflogaeth y staff yn cael ei oedi gan nad oes modd i'r Coleg gyflogi staff yn absenoldeb gwarant pensiwn gan sefydliad addysg uwch. Cadarnhaodd nad oes unrhyw broblemau cyfreithiol ynghlwm â threfniant lle bo sefydliad addysg uwch yn darparu gwarant o'r fath i'r Coleg. Nodwyd ei bod hefyd yn bosibl i sefydliadau addysg uwch ddarparu gwarant ar y cyd i'r Coleg. Er mwyn datrys y sefyllfa bensiwn yn benodol, nodwyd y byddai'n bosibl edrych ar drefniant dros dro ar gyfer trosglwyddo'r staff o gyflogaeth Coleg Prifysgol y Drindod, i gyflogaeth Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, drwy gytundeb 'protocol', a fyddai'n sicrhau fod modd i staff y Coleg ymuno â chynllun pensiwn USS ar unwaith, tra bo trafodaethau'n parhau ar fyrder i ddatrys y sefyllfa er mwyn cadarnhau trefniadau parhaol. 5.1.4. Cafwyd trafodaeth ynghylch y sefyllfa bresennol, a chytunwyd fod datrys y sefyllfa yn fater o flaenoriaeth er mwyn sicrhau tegwch i staff y Coleg. Cadarnhawyd fod yr oblygiadau o ddarparu gwarant i'r Coleg wedi eu hamcangyfrif, ac mai'r bwriad ydyw i'r Coleg adeiladu cronfa dros gyfnod o amser fel bod modd i'r Coleg ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn, pe bai angen. 5.1.5. Ar sail y drafodaeth, cytunwyd ar y camau a ganlyn: (i) Cytunwyd y byddai IM, EL a'r Athro Medwin Hughes (MH), yn parhau â'r trafodaethau parthed cytundeb 'protocol' fel trefniant interim i drosglwyddo staff. Cefnogwyd y bwriad i ddilyn y trefniant hwn fel bod modd symud cytundebau presennol staff y Coleg i Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, ac er mwyn	Camau a nodir yn 5.1.5. (i) – (iii) i'w gweithredu yn unol ag argymhellion y Bwrdd.	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	sicrhau fod modd trosglwyddo'r staff i gynllun pensiwn USS ar unwaith. (ii) Cytunwyd fod angen datrysiad buan i'r sefyllfa, a chytunwyd y byddai camau priodol yn cael eu cymryd yn dilyn y cyfarfod er mwyn mynd i'r afael â'r opsiynau posibl i sicrhau'r gwarant. (iii) Cytunwyd ei bod yn hanfodol fod y mater yn cael ei gyflwyno i ystyriaeth Pwyllgor AUC yn nhymor yr haf, a bod pwysau'n cael ei roi i sicrhau fod y mater yn cael ei ddatrys yn derfynol yng nghyfarfod AUC ym Medi 2011. 5.1.6. Yn dilyn y drafodaeth uchod, ymadawodd Emyr Lewis â'r cyfarfod. 5.2. Nodwyd yr argymhellion eraill a oedd i'w hystyried a'u cytuno yn ymwneud â materion staffio, a thrafodwyd y materion yn unigol. 5.2.1. <u>Cytundebau cyflogaeth staff y Coleg</u>: Cymeradwyodd y Cyfarwyddwyr y cytundeb cyflogaeth a baratowyd gan yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol. Nodwyd y byddai'r cytundebau newydd yn dod i rym pan fyddai'r staff yn trosglwyddo i gyflogaeth y Coleg, ar ôl datrys y materion uchod. 5.2.2. <u>Penodiad ymgynghorydd adnoddau dynol</u>: Cafwyd adroddiad ar y broses o benodi ymgynghorwyr adnoddau dynol i weithredu ar ran y Coleg, a chymeradwyodd y Cyfarwyddwyr yn ffurfiol benodiad *Mabis* i gyflawni'r swyddogaeth hon. 5.2.3. <u>Strwythur staffio</u>: Cyflwynwyd diagram o'r strwythur staffio presennol, a nodwyd lleoliad swyddfeydd y Coleg. Cafwyd adroddiad byr ar y dulliau gweithredu dydd-i-ddydd, a'r	Cytundebau cyflogaeth newydd staff y Coleg i ddod i rym pan fydd materion cyflogaeth wedi eu datrys.	Ar unwaith pan fydd materion cyflogaeth wedi eu datrys.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	strwythur ar gyfer gwneud penderfyniadau.		
	5.2.4. Ar gais y Cyfarwyddwyr, cytunwyd y byddai modd darparu copi o'r diagram gyda chofnodion y cyfarfod.	Diagram o'r strwythur staffio i'w ddarparu i'r Cyfarwyddwyr.	27 Mehefin 2011.
	5.2.5. Prif Weithredwr y Coleg: Ystyriwyd, a chytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r argymhelliad i ail-ddynodi teitl swydd Cyfarwyddwr y Ganolfan yn Brif Weithredwr y Coleg.	Teitl swydd y Prif Weithredwr i'w fabwysiadu ar unwaith.	Ar unwaith.
	5.3. Lefelau Staffio: Cafwyd adroddiad byr gan IM ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â lefelau staffio. Serch nodi argymhelliad Bwrdd Gweithredu'r Coleg mewn perthynas â niferoedd staff canolog, nodwyd ei bod yn ofynnol i'r lefelau staffio adlewyrchu'r gwaith y disgwylir i'r staff ei gyflawni, ac yn benodol felly'r dyletswyddau ychwanegol sydd wedi eu cyflwyno yn sgil, ac yn ystod y broses o sefydlu'r Coleg. Cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwyr yn cadw golwg ar y sefyllfa hon, a chytunwyd y dylid ystyried, maes o law, yr angen i benodi Pwyllgor Staffio.	Materion yn ymwneud â lefelau staffio canolog y Coleg i'w hystyried ymhellach maes o law.	Amhenodol.
	5.4. Dirprwyo yn Absenoldeb y Prif Weithredwr: Cyflwynwyd yr argymhellion mewn perthynas â dirprwyo cyfrifoldebau yn absenoldeb y Prif Weithredwr. Nodwyd y byddai'r trefniadau hyn wedi eu hamlinellu yn y Cod Ymarfer llawn, a fydd yn cael ei gyflwyno yn ail gyfarfod y Cyfarwyddwyr. Yn y cyfamser, cytunwyd, os yw'r Prif Weithredwr yn absennol, am ba bynnag reswm, am gyfnod estynedig, y byddai Dr Dylan Phillips [Rheolwr Datblygu Staff] â'r awdurdod i ddirprwyo ar ran y Prif Weithredwr yn ei swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifo, a bod Ysgrifennydd y Coleg â'r hawl i weithredu ar ran y Prif Weithredwr ym mhob mater arall yn ymwneud â gweinyddiaeth y Coleg.	Argymhellion parthed trefniadau dirprwyo i'w gweithredu'n llawn ar unwaith.	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
6 Materion Cyllid (BC/11/01/06)	6.1. Cyflwynwyd y papur, ac ystyriwyd y materion a oedd yn codi yn unigol.		
	6.2. <u>Rheoliadau Ariannol Interim</u>: Cymeradwyodd y Cyfarwyddwyr y Rheoliadau Interim. Cadarnhawyd ei bod yn fwriad i sicrhau cyngor arbenigol ar y Rheoliadau erbyn y cyfarfod nesaf, fel bod modd eu mabwysiadu'n ffurfiol ar ffurf derfynol.	Swyddogion y Coleg i dderbyn cyngor arbenigol ar y Rheoliadau Ariannol.	Erbyn 27 Mehefin 2011.
	6.3. <u>Blwyddyn gyfrifo'r Coleg</u>: Cadarnhawyd mai 1 Awst i 31 Gorffennaf fydd blwyddyn gyfrifo'r Coleg. Nodwyd y bydd y cyfrifon cyntaf yn ymestyn o 1 Ebrill 2011 i 31 Gorffennaf 2012, yn unol ag arweiniad HEFCW.		
	6.4. <u>Trefniadau Bancio'r Coleg</u>: Cafwyd adroddiad ar y broses o benodi bancwyr i'r Coleg, a chymeradwywyd penodiad *Banc Barclays* i ddarparu gwasanaeth bancio i'r Coleg.		
	6.5. <u>Cytundeb Cyllido Drafft rhwng y Coleg a HEFCW:</u> Cafwyd cyflwyniad i'r Cytundeb Cyllido, a chymeradwyodd y Cyfarwyddwyr y cytundeb.	Cytundeb cyllido i'w gymeradwyo ar unwaith.	Ar unwaith.
	6.6. <u>Trefniadau Archwilio:</u> Nodwyd ei bod yn ofynnol i sefydlu Pwyllgor Archwilio, a phenodi tri aelod i'r Pwyllgor o blith y Cyfarwyddwyr. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach o dan eitem 10 ar yr agenda.		
	6.7. <u>Trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfrifo i'r Coleg:</u> Cafwyd adroddiad ar y broses o benodi cyfrifwyr i weithredu ar ran y Coleg, a chymeradwywyd yn ffurfiol benodiad cwmni *Bevan and Buckland* yn gyfrifwyr y Coleg.		
7 Materion Swyddfeydd	7.1. Cafwyd adroddiad ar y sefyllfa bresennol parthed lleoliad swyddfeydd y Coleg. Nodwyd fod prif swyddfeydd y Coleg wedi		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(BC/11/01/07)	eu lleoli yn y Llwyfan, yng Nghaerfyrddin, ac mae gan y Coleg hefyd swyddfa ym Mhlas y Parc yng Nghaerdydd. 7.2. Cafwyd adroddiad ar faterion Iechyd a Diogelwch yng nghyd-destun y swyddfeydd, er gwybodaeth.		
8 Trefniadau Yswiriant (BC/11/01/08)	8.1. Cafwyd adroddiad byr ar drefniadau yswiriant y Coleg, a chadarnhawyd fod trefniadau mewn lle gyda chwmni *Thomas Carroll Ltd*, Abertawe. Nodwyd ei bod yn fwriad i adolygu'r trefniadau mewn tri mis, er mwyn sicrhau fod y costau mor gystadleuol â phosibl.		
9 Trefniadau Gwasanaethau Cyfreithiol (BC/11/01/09)	9.1. Cafwyd adroddiad ar y broses o benodi cyfreithwyr i weithredu ar ran y Coleg, a chymeradwywyd yn ffurfiol benodiad cwmni *Morgan Cole* yn gyfreithwyr y Coleg.		
10 Strwythur Pwyllgorau Sefydlog (BC/11/01/10)	10.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur, a nodwyd fod y Memorandwm yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr sefydlu dau bwyllgor, sef (a) Pwyllgor Archwilio, a (b) Grŵp Cynllunio Academaidd. Cafwyd cyflwyniad i'r cylch gorchwyl drafft a luniwyd ar gyfer y naill bwyllgor a'r llall, a thrafodwyd y pwyllgorau yn unigol. 10.2. <u>Pwyllgor Archwilio</u>: Cafwyd trafodaeth ar y cylch gorchwyl drafft, a nodwyd y canlynol: (i) Cytunwyd y dylid cynyddu nifer cyfarfodydd y pwyllgor i o leiaf dair gwaith y flwyddyn. (ii) Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor Archwilio fod â chyfrifoldeb dros graffu ar fanylder y gofrestr risg, ond y dylai Bwrdd y Cyfarwyddwyr fod yn gyfrifol am reoli'r gofrestr. (iii) Nodwyd mai Bwrdd y Cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am bennu cyllidebau'r Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	10.2.1. Cymeradwywyd gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn amodol ar addasu'r papur yn unol â sylwadau'r Cyfarwyddwyr. 10.2.2. Nodwyd yr angen i benodi tri aelod i'r Pwyllgor o blith y Cyfarwyddwyr, gydag un o'r aelodau hyn i Gadeirio'r Pwyllgor. Cytunwyd i benodi'r Cyfarwyddwyr a ganlyn yn aelodau o'r pwyllgor: Geraint James, Gareth Pierce, a Wyn Thomas. Nodwyd y bydd hefyd yn ofynnol i benodi hyd at dri aelod annibynnol cyfetholedig. 10.3. Grŵp Cynllunio Academaidd: Cafwyd cyflwyniad i'r cylch gorchwyl drafft, a nodwyd yr egwyddorion sydd wrth wraidd y penderfyniad i sefydlu'r pwyllgor, a'r cynigion sydd gerbron parthed ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth. Cafwyd trafodaeth ymysg y Cyfarwyddwyr a nodwyd y canlynol: (i) Nodwyd yr angen cyfansoddiadol i sefydlu'r pwyllgor, a chymeradwywyd yr egwyddorion a'r rhesymau dros sefydlu'r grŵp. (ii) Nodwyd yr angen i ddiffinio'n eglur y cysylltiad rhwng y Grŵp a Bwrdd y Cyfarwyddwyr, a'r angen i amlinellu'n eglur swyddogaeth ac awdurdod y Grŵp mewn perthynas â Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Awgrymwyd y dylid ystyried presenoldeb Cyfarwyddwr(wyr) yn y pwyllgorau, neu ystyried y posibilrwydd o benodi Cadeirydd i'r Grŵp o blith y Cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau cyswllt priodol rhwng y naill bwyllgor a'r llall. (iii) Cafwyd trafodaeth ar swyddogaeth y Grŵp mewn perthynas â chynllunio academaidd, a chymeradwywyd y bwriad i sicrhau fod academyddion yn ganolog i'r gwaith cynllunio drwy sefydlu pwyllgor o'r fath.	Cylch gorchwyl i'w addasu yn unol â sylwadau'r Cyfarwyddwyr yn 10.2. (i)-(iii).	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	(iv) Croesawyd y bwriad i gynnwys cynrychiolaeth o blith myfyrwyr ar y pwyllgor, serch hynny awgrymwyd y dylid ystyried ymhellach y posibilrwydd o gynyddu nifer y cynrychiolwyr.		
	10.3.1. Ar sail y drafodaeth, cytunodd y Cyfarwyddwyr y dylid ymgynghori'n ehangach ar y papur hwn cyn y cyfarfod nesaf.	Cyfarwyddwyr / swyddogion y Coleg i ymgynghori ymhellach ar y papur.	Erbyn 27 Mehefin 2011.
	10.4. <u>Pwyllgorau Sefydlog Eraill</u>: Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried a fyddent yn dymuno sefydlu unrhyw bwyllgorau sefydlog eraill i gyfarfod yn rheolaidd, neu yn ôl yr angen i gynghori'r Bwrdd ar faterion arbenigol. Cytunwyd i ystyried y mater ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod, er mwyn pennu strwythur a fydd yn hwyluso gwaith y Bwrdd, a darparu cyngor ac arweiniad ar faterion penodol.	Mater i'w ystyried ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod.	Amhenodol.
	10.5. <u>Grwpiau Arbenigol:</u> Nodwyd fod y Ganolfan Addysg Uwch wedi cynnal grwpiau mewn tri maes penodol - Marchnata a Dilyniant; Hyfforddiant a Datblygiad Staff, ac E-ddysgu a Dysgu Cyfunol ers 2007. Nodwyd fod swyddogion y Coleg yn argymell cynnal y strwythur presennol gan benodi nifer fechan o arbenigwyr a fyddai'n cyfarfod, yn ôl yr angen, er mwyn cynghori a chynorthwyo'r Coleg a'i swyddogion mewn meysydd penodol. Yn ychwanegol i'r tri grŵp presennol, nodwyd yr argymhelliad i sefydlu grŵp ar gyfer maes 'Cyhoeddi ac Ymchwil'.		
	10.5.1. Cymeradwyodd y Cyfarwyddwyr yr argymhellion, a chymeradwywyd yn ogystal yr awgrym i adolygu'r drefn maes o law, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau neu anghenion a gyfyd yn y dyfodol.	Swyddogion y Coleg i sefydlu grwpiau arbenigol yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn y papur.	Erbyn Medi 2011.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	10.6. Paneli Rhwydwaith: Nodwyd fod y Ganolfan, a'i rhagflaenwyr wedi cynnal nifer o baneli rhwydwaith ar sail ddisgyblaethol / bynciol. Cymeradwywyd y bwriad i gynnal y drefn bresennol yn y tymor byr ond gyda'r bwriad i adolygu'r drefn yng ngoleuni unrhyw benderfyniadau ar sefydlu Grŵp Cynllunio Academaidd.	Trefniadau presennol i barhau, ond gyda'r bwriad i adolygu'r drefn maes o law.	Amhenodol.
11 Trefniadau Ymarferol, gan gynnwys cynigion ar gyfer sefydlu Grŵp Gweithredu (BC11/01/11)	11.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur, a nodwyd fod yr argymhelliad i sefydlu Grŵp Gweithredu yn deillio o'r dymuniad i ffurfioli'r berthynas rhwng swyddogion canolog y Coleg a chydweithwyr yn y sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfrwng Cymraeg, a phrofiad o'r maes yn y sefydliadau ar lefel dydd i ddydd. Nodwyd fod cyfarfod 'cysgodol' o'r Grŵp eisoes wedi ei gynnal er mwyn ystyried argymhellion i'w cyflwyno i'r Cyfarwyddwyr. 11.2. Cafwyd cyflwyniad i'r cylch gorchwyl drafft, a nodwyd yn benodol bwrpas y pwyllgor a fyddai'n sicrhau fforwm ar gyfer trafodaeth barhaus rhwng swyddogion y Coleg, a swyddogion yn y sefydliadau er mwyn trafod ac ymgynghori'n ffurfiol ar gynlluniau a gweithgareddau'r Coleg. 11.3. Cymeradwyodd y Cyfarwyddwyr yr argymhelliad i sefydlu'r Grŵp yn ffurfiol, ond argymhellwyd ail-enwi'r grŵp yn 'Grŵp Ymgynghorol' er mwyn adlewyrchu'n briodol ei swyddogaeth o fewn y strwythur pwyllgorau'r Coleg. 11.4. Cymeradwywyd y bwriad i wahodd yr aelodau a nodwyd yn y papur i fod yn gynrychiolwyr o'r sector ar y Grŵp, a chytunwyd y dylid cydnabod treuliau'r aelodau i fynychu'r cyfarfodydd.	Swyddogion y Coleg i sefydlu 'Grŵp Ymgynghorol' i fabwysiadu'r cylch gorchwyl a amlinellwyd yn y papur.	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
12 Cyllideb Ddrafft y Coleg	12.1. Cafwyd cyflwyniad i'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2011/12, a'r gyllideb sydd wedi ei dynodi ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2011 a Gorffennaf 2011. 12.2. Cafwyd arweiniad ar benawdau'r gyllideb gan IM. Nodwyd yr hyn a oedd yn gynwysedig yn y ffigyrau, a chyfeiriwyd yn benodol at gyllidebau gweithgareddau craidd y Coleg, a'r cynlluniau newydd sydd wedi eu cyflwyno yn sgil sefydlu'r Coleg. Nodwyd dosraniad bras y gyllideb ar ffurf ganrannol, a chyfeiriwyd yn benodol at y ffaith fod oddeutu ¾ y gyllideb yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'r sefydliadau i gefnogi gweithgarwch cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau'r Coleg. 12.3. Cafwyd amlinelliad o systemau monitro'r Coleg, a'r prosesau ar gyfer dosbarthu cyllid. Nodwyd fod system gyllid newydd wedi ei sefydlu'n fewnol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2011 ymlaen, a bydd y system yn llawn weithredol erbyn Medi 2011. 12.4. Trafodwyd amrywiol elfennau o'r gyllideb, a chytunwyd y byddai'r Bwrdd yn derbyn ac ystyried cyllideb fanwl y Coleg ar gyfer 2011/12 yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn rhoi cyflwyniad i'r Cyfarwyddwyr ar y prosesau monitro canolog yn y cyfarfod nesaf.	Cyfarwyddwyr i ystyried cyllideb fanwl y Coleg ar gyfer 2011/12 yn y cyfarfod nesaf. Swyddogion y Coleg i roi cyflwyniad ar brosesau monitro canolog yn y cyfarfod nesaf.	27 Mehefin 2011. 27 Mehefin 2011.
13 Cynllun Strategol y Coleg	13.1. Yn unol ag argymhelliad y Cadeirydd, symudwyd yr eitem hon i ddiwedd y cyfarfod er mwyn caniatáu amser i gael trafodaeth ar Gynllun Strategol y Coleg. 13.2. Cafwyd cyflwyniad llafar gan IM, a nodwyd fod swyddogion y Coleg eisoes wedi dechrau ar y gwaith o lunio Cynllun Strategol		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	drwy ganolbwyntio ar gyfres o themâu a fyddai'n ymdrin â holl agweddau o waith y Coleg. 13.3. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried y themâu a oedd gerbron, ac i ystyried y math o fodel y byddent yn dymuno ei ddilyn er mwyn llunio a chytuno ar Gynllun Strategol y Coleg. 13.4. Cytunodd y Cyfarwyddwyr i gyflwyno sylwadau ar y themâu a nodwyd drwy ohebiaeth e-bost yn dilyn y cyfarfod, a chytunwyd i osod y mater yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf, er mwyn cael trafodaeth lawn ar y Cynllun.	Cyfarwyddwyr i gyflwyno sylwadau drwy ohebiaeth e-bost yn dilyn y cyfarfod. Mater i'w osod yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.	Ebrill / Mai 2011. 27 Mehefin 2011.
14 Aelodaeth Staff Academaidd a Myfyrwyr o'r Coleg (BC/11/01/14)	14.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur, a nodwyd cyd-destun y drafodaeth ar aelodaeth staff a myfyrwyr o'r Coleg. 14.2. Nodwyd fod yr argymhellion a oedd gerbron yn ffrwyth trafodaethau manwl y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Grŵp Sector Addysg Uwch er mwyn ystyried yr egwyddor o ddatblygu dull i sicrhau fod myfyrwyr a staff academaidd yn dod yn rhan lawn o weithgarwch y Coleg. 14.3. Nodwyd yr argymhellion a gyflwynwyd yn y papur, a'r camau a'r amserlen weithredu a amlinellwyd. 14.4. Cafwyd trafodaeth ar yr egwyddorion a oedd wrth wraidd y bwriad i ddatblygu proses o 'ymaelodi' â'r Coleg, a chymeradwywyd yr argymhellion yn llawn, yn amodol ar y canlynol: (i) ychwanegu 'myfyrwyr Addysg Bellach' i'r categorïau o	Argymhellion a nodir yn y papur, ac argymhellion y Cyfarwyddwyr fel y'i nodir yng nghofnod	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	aelodaeth; (ii) ystyried ymhellach y berthynas â chyflogwyr, a'r posibilrwydd o gynnwys cyflogwyr ymysg y categorïau o aelodaeth; (iii) cynnal trafodaeth bellach a'r Cyfarwyddwr sy'n cynrychioli myfyrwyr er mwyn diffinio natur aelodaeth myfyrwyr, a'r prosesau ar gyfer ethol cynrychiolwyr myfyrwyr yn y dyfodol. 14.5. Yn unol â chymeradwyaeth y Cyfarwyddwyr, nodwyd y byddai'r gwaith o gynllunio system a phroses ymaelodi yn mynd rhagddo, gyda'r nod o ddatblygu'r system yn llawn, a'i hyrwyddo'n eang erbyn Medi 2011.	14.4.(i)-(iii) i'w gweithredu'n llawn. Swyddogion y Coleg i gynllunio system a phroses ymaelodi, yn unol â'r hyn a nodir yn y papur.	 Gwaith i ddechrau ar unwaith, ac i'w gwblhau erbyn Medi 2011.
15 Argymhellion panel ymgynghorol ar ddyfarniadau o'r Cynllun staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig (BC/11/01/15)	15.1. Wrth gyflwyno'r papur, cyfeiriwyd at arwyddocâd y Cynllun Staffio Academaidd a nodwyd fod mwyafrif y cyllid newydd sy'n cael ei ddarparu i'r Coleg wedi ei glustnodi i'r Cynllun hwn. Nodwyd yn fyr amodau a thelerau'r Cynllun, a chyfeiriwyd at y modelau cyllido a gytunwyd ar gyfer y swyddi a fydd yn dechrau yn 2011/12. 15.2. Nodwyd fod yr argymhellion a oedd gerbron mewn perthynas â dyfarniadau'r Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil wedi eu cyflwyno gan banel ymgynghorol a benodwyd i ystyried yr holl geisiadau a ddaeth i law yn dilyn proses agored o wahodd ceisiadau. Nodwyd fod y broses wedi ei chytuno gan Fwrdd Gweithredu'r Coleg Ffederal yn ei gyfarfod ar 19 Hydref 2011, er mwyn sicrhau fod modd i'r sefydliadau benodi i'r swyddi cyn, neu'n fuan ym mlwyddyn academaidd 2011/12. 15.3. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried yr argymhellion, ond er mwyn osgoi gwrthdaro mewn buddiannau ni wahoddwyd		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	sylwadau gan y Cyfarwyddwyr o'r sefydliadau. 15.4. Cymeradwyodd y Cyfarwyddwyr yr argymhellion ar ddyfarniadau'r ddau Gynllun yn unfrydol. 15.5. Cadarnhawyd y byddai'r sefydliadau'n derbyn cadarnhad o'r dyfarniadau yn dilyn y cyfarfod, a byddai swyddogion y Coleg yn gweithio'n agos â'r sefydliadau i gytuno ar swydd ddisgrifiadau a threfniadau hysbysebu a phenodi.	Argymhellion ar ddyfarniadau'r ddau gynllun i'w cyhoeddi.	Ar unwaith.
16 Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg (BC/11/01/16)	16.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur, a nodwyd fod yr argymhellion a oedd gerbron yn ffrwyth trafodaethau niferus ar yr egwyddor o gyflwyno ffordd gyffredin o gydnabod sgiliau iaith Gymraeg a dwyieithog myfyrwyr addysg uwch. 16.2. Nodwyd fod adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen, a sefydlwyd gan y Grŵp Sector Addysg Uwch i ystyried yr egwyddor o ddatblygu tystysgrif sgiliau iaith Gymraeg, yn crynhoi cyfres o argymhellion, ynghyd â chynnig fframwaith posibl ar gyfer cyflwyno cynllun cenedlaethol o'r fath. 16.3. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr argymhellion a nodwyd yn y papur, a nodwyd cefnogaeth frwd y Cyfarwyddwyr i weld y Coleg yn datblygu cynllun a fyddai'n sicrhau fod modd cydnabod sgiliau iaith Gymraeg myfyrwyr addysg uwch. Yn ogystal, cymeradwywyd y bwriad i ddatblygu perthynas â chynnal deialog barhaus â chyflogwyr wrth gynllunio a chyflwyno'r cynllun. 16.4. Nodwyd fod gwaith cynllunio manwl, a llawer o waith ymarferol i'w wneud cyn bod modd cyflwyno'r cynllun, a nodwyd y farn fod angen ystyried a chydnabod y gwahaniaethau rhwng meysydd astudio myfyrwyr wrth ddatblygu'r cynllun.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	16.5. Cytunodd y Cyfarwyddwyr i argymell fod y Grŵp Tasg a Gorffen yn parhau a'i waith gan ymgymryd â'r camau angenrheidiol a goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r cymhwyster.	Grŵp Tasg a Gorffen i barhau â'i waith ac i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r cymhwyster.	Ar unwaith.
17 Cronfa Datblygiadau Strategol y Coleg (BC11/01/17)	17.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur, ac amlinellwyd yr egwyddorion a fyddai'n sail i ddyfarniadau o'r Gronfa ar gyfer 2011/12. 17.2. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i gymeradwyo'r trefniadau a'r amserlen a argymhellwyd yn y Cylchlythyr drafft a gynhwyswyd fel atodiad i'r papur. 17.3. Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro mewn buddiannau, nodwyd na fyddai'n briodol i nifer o'r Cyfarwyddwyr gyflwyno sylwadau ar yr egwyddorion a'r broses. 17.4. Cymeradwywyd y trefniadau a'r amserlen yn ddiamod, a chytunwyd y dylid dosbarthu'r cylchlythyr yn ddi-oed.	Trefniadau ac amserlen y Gronfa i'w gweithredu, a'r cylchlythyr i'w ddosbarthu i'r sefydliadau ar unwaith.	Ar unwaith, ac yn unol â'r amserlen a nodwyd.
18 Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig ac Ysgoloriaethau Lefel M (BC/11/01/18)	18.1 Cafwyd cyflwyniad i'r papur ac adroddiad ar weithrediad blwyddyn gyntaf Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg. Nodwyd fod trefniadau'r Cynllun ar gyfer 2011/12 wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Gweithredu'r Coleg Ffederal ar 19 Hydref 2011, a lansiwyd y Cynllun yn swyddogol yng nghwmni'r Gweinidog Addysg, Leighton Andrews AC, ar 2 Tachwedd 2010, yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. 18.2 Nodwyd fod y broses ddyfarnu ar gyfer y Cynllun wedi ei gynnal yn unol â'r amserlen. Yn groes i'r hyn a nodwyd yn y papur,		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gan y bu'n rhaid gohirio cyfarfod cyntaf Bwrdd y Cyfarwyddwyr, nodwyd fod y rhestr o enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y Prif Ysgoloriaethau wedi ei gymeradwyo gan y Cadeirydd, yn hytrach na'i gyflwyno i gyfarfod cyntaf Bwrdd y Cyfarwyddwyr, fel bod modd cyhoeddi'r dyfarniadau'n ddi-oed. Nodwyd fod y rhestr lawn wedi ei gyhoeddi ar wefan y Coleg, ac yn y wasg Gymraeg ar ddiwrnod y cyfarfod. 18.3 Nodwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwyr, a chymeradwywyd yr argymhellion a gyflwynwyd yn y papur parthed trefniadau'r cynllun ar gyfer 2012/13. 18.4 Nodwyd, a chymeradwywyd y bwriad i'r Coleg gyflwyno Cynllun Ysgoloriaethau Lefel M i ddechrau ym 2011/12. 18.5 Cafwyd adroddiad ar ofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r amodau ychwanegol ar gyfer yr elfen hon o gyllideb y Coleg. Nodwyd fod trafodaethau ar brosesau adrodd a monitro yn mynd rhagddynt, a bydd cytundeb ffurfiol a fydd yn amlinellu'r trefniadau hyn mewn lle ymhen rhai wythnosau.	Argymhellion parthed trefniadau'r cynllun ar gyfer 2012/13 i'w gweithredu. Argymhellion parthed cyflwyno Cynllun Ysgoloriaethau Lefel M i'w gweithredu.	Ar unwaith, ac yn unol â'r amserlen a nodwyd. Ar unwaith.
19 Ystadegau Cyfredol ar Niferoedd Myfyrwyr a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	19.1. Nodwyd fod y papur a oedd gerbron yn cyflwyno ystadegau sylfaenol iawn am niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ar sail dadansoddiad o ddata diweddaraf HESA (Higher Educational Statistical Agency) ar gyfer 2008/09. 19.2. Nodwyd y cwestiynau sydd wedi eu codi yn y gorffennol ynghylch cywirdeb y data oherwydd y gwahaniaethau mawr rhwng sefydliadau gwahanol o ran y ffordd y mae data yn cael ei gasglu a'i gywain. Oherwydd yr anghysondebau hyn,		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	nodwyd fod y data'n gallu profi'n gamarweiniol, neu o leiaf yn broblematig o ran ei ddehongli. 19.3 Nodwyd y farn fod angen trafodaeth lawn ar y dulliau presennol o gywain a dadansoddi data, fel bod modd ystyried y ffordd orau i ddarparu gwybodaeth ystadegol manwl, a dibynadwy at ddibenion cynllunio'r Coleg. 19.4 Argymhellwyd y dylid ail-gynnull y Grŵp Tasg a Gorffen ar Ddata, a sefydlwyd yn wreiddiol gan y Grŵp Sector Addysg Uwch er mwyn cyflwyno argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr.	Grŵp Tasg a Gorffen ar Ddata i ail-gynnull i ystyried y materion a nodwyd a chyflwyno argymhellion i'w hystyried gan y Cyfarwyddwyr.	Amhenodol.
20 I dderbyn adroddiad llafar ar Gytundeb Drafft y Coleg a'r sefydliadau	20.1. Cafwyd adroddiad llafar gan IM ar y bwriad i lunio cytundeb gweithredu rhwng y Coleg a'r sefydliadau addysg uwch er mwyn creu fframwaith cadarn ar gyfer gweithredu'n ymarferol y berthynas gyfreithiol rhwng y Coleg a'r sefydliadau, fel y'i nodir yng nghyfansoddiad y Coleg. Nodwyd y bydd y cytundeb yn cynnwys amlinelliad o'r trefniadau ar gyfer monitro grantiau a'r broses ffurfiol o adrodd ar ddeilliannau buddsoddodiau. Nodwyd y bydd y cytundebau'n cael eu diweddaru a'u hadolygu'n flynyddol. 20.2. Nodwyd fod cytundeb drafft eisoes wedi ei lunio, a chytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwyr yn derbyn drafft i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.	Swyddogion y Coleg i baratoi cytundeb drafft i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr yn y cyfarfod nesaf.	27 Mehefin 2011.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
21 I dderbyn ac ystyried argymhellion ar ddarpariaeth gydweithredol	21.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur ac adroddiad byr ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Grŵp Sector Addysg Uwch i ystyried materion yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol a strwythurau cydweithio rhwng prifysgolion. 21.2. Nodwyd fod argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen wedi eu llunio er mwyn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth gydweithredol mewn modd strwythuredig, gan weithredu ar yr egwyddor graidd o sicrhau fod y ddarpariaeth o'r ansawdd uchaf posibl, ac yn cynnig profiad dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf i fyfyrwyr. 21.3. Nodwyd yr argymhellion, a chymeradwyodd y Cyfarwyddwyr waith y Grŵp. Nododd y Cyfarwyddwyr bwysigrwydd gwaith y Grŵp, ac yn benodol felly'r argymhellion a gyflwynwyd mewn perthynas â diogelu ansawdd academaidd, a'r bwriad i ddatblygu polisïau llawn ar gyfer staff a myfyrwyr. 21.4. Cytunodd y Cyfarwyddwyr i roi cyfrifoldeb ar y Grŵp Tasg a Gorffen i ymgymryd â'r camau angenrheidiol i sicrhau strwythurau a chanllawiau priodol ar gyfer cynllunio, datblygu a chyflwyno darpariaeth gydweithredol.	Grŵp Tasg a Gorffen i barhau a'i waith ac i ymgymryd â'r camau angenrheidiol fel y'i hamlinellwyd yn y papur.	Amhenodol / parhaus.
22 Unrhyw Fater Arall	22.1. Wrth gloi'r cyfarfod, estynnwyd gair o ddiolch yn ffurfiol i swyddogion y Ganolfan Addysg Uwch (bellach swyddogion canolog y Coleg), am eu holl waith dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn benodol yr holl waith sydd wedi ei gwblhau yn y cyfnod diweddar er mwyn sefydlu'r Coleg. Nodwyd gair o ddiolch, yn ogystal, i aelodau'r holl bwyllgorau blaenorol sydd wedi gwneud cyfraniad mawr i ddatblygiad y gwaith hyd yma. 22.2. Nodwyd gair o ddiolch i Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	am letya'r cyfarfod, ac i'r cyfieithwyr am eu gwaith yn ystod y cyfarfod. 22.3. Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod.		
23 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27 Mehefin 2011, yn Aberystwyth.		

Derbyniwyd a chymeradwywyd y cofnodion yn ffurfiol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ddydd Llun, 27 Mehefin 2011 ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Llofnod: .....

(Yr Athro R. Merfyn Jones, Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Dyddiad: 27.vi.2011